

## Awgrymiadau da

Fe wnaethom anfon holiaduron at rai o'r rhieni sydd wedi defnyddio cewynnau y gellir eu haildefnyddio a dyma rai o'u hawgrymiadau da:

- Rhowch gynnig ar amrywiaeth o fathau/frandiau cyn prynu fel y cewch rai sy'n ffitio'ch plentyn yn gywir
- Ewch i weld a oes gennych lyfrgell cewynnau leol
- Peidiwch â phoeni am roi baw yn eich peiriant golchi - mae'n cael gwared arno ar 60 gradd
- Rhowch drefn ar waith fel na fyddwch yn brin o gewynnau glân
- Os defnyddiwch gewynnau terri, rhowch gynnig ar y dulliau plygu gwahanol i ddod o hyd i'r un sy'n gweithio i chi. Hefyd, gallwch newid y ffordd rydych yn eu plygu wrth i'r plentyn dyfu fel eich bod ond yn gorfod newid y lapiadau
- Peidiwch â rhoi cynnig arnyn nhw am y tro cyntaf pan fo amser yn brin
- Rhowch gynnig go iawn arno fe am o leiaf pythefnos
- Byddwch yn barod i'w newid yn amlach
- Arbedwch arian trwy brynu cewynnau ail-law
- Peidiwch â defnyddio meddalydd ffabrig am ei fod yn lleihau'r amsugnedd
- Gallwch brynu hancesi sychu golchadwy hefyd
- Defnyddiwch leinwyr cnu i ddenu lleithder o groen y baban
- Ewch i siopau gwahanol i gael y pris gorau
- Sociwch nhw cyn gynted ag y gallwch mewn bin cewynnau â chaead
- Ystyriwch fynd â nhw adref yn eich bag newid a phrynwch fagiau gwlyb
- Defnyddiwch olau naturiol yr haul i gannu staeniau
- Peidiwch â phrynu pecyn o'r geni i'r poti oni bai'ch bod yn gwybod bod hynny'n addas i'ch plentyn chi
- Nid yw cewynnau newydd sbon mor amsugol, felly golchwch nhw cyn eu defnyddio neu, yn well byth, prynwch rai ail-law
- Siaradwch â phobl eraill sy'n eu defnyddio i rannu cyngor a gwybodaeth

Os oes gennych brofiad o ddefnyddio cewynnau go iawn ac awgrymiadau a chyngor i'w rhoi, e-bostiwch [ailgylchu.UCC@abertawe.gov.uk](mailto:ailgylchu.UCC@abertawe.gov.uk)